Cynllun Iaith Gymraeg

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD

TACT
The Adolescent and Children's Trust

Paratowyd y cynllun gwirfoddol hwn yn unol â Chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn Tachwedd 2009

Dyfodol mwy disglair i blant a phobl Ifanc

Contents

Cynnwys Rhif Tud

Rhagair 1

1 Cyflwyniad 2-3

2 Cynllunio Gwasanaeth a Chyflwyno'r Cynllun 4

3 Polisïau, Mentrau a Phrosiectau 4

4 Cyfathrebu'r Cynllun 5

5 Delwedd Gyhoeddus 6

6 Staffio a Recriwtio 6

7 Cyflwyno 6

8 Monitro 7

9 Hysbysebu'r Cynllun 7

Amserlen Gyflwyno 8-9

Cyswllt

Dot Jones
Cyfarwyddwr Gwasanaethau

Plant Cymru

20 Gerddi Fictoria
Castell-nedd SA11 3BH

T 01639 622320
S 07980 578851

Rhagair

Yr Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc (TACT) yw darparwr gwasanaethau maethu a mabwysiadu elusennol mwyaf y DU. Gan weithio mewn naw o swyddfeydd ar draws Lloegr, Cymru a'r Alban, rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac ymgyrchu dros blant a phobl ifanc mewn gofal a theuluoedd.

Dros y blynyddoedd, gwaith craidd TACT fu darparu lleoliadau maethu i blant oedd yng ngofal awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi uno ac ymuno â sefydliadau eraill ac wedi amrywiaethu ein meysydd gwaith. Yn 2007, unwyd ni â'r Gwasanaethau Maethu Annibynnol (IAS) ac rydym wedi integreiddio'u gwaith i mewn i'n gwasanaethau gofal. Yn fwy diweddar, unodd TACT â'r elusen Parents for Children (PfC). Roedd gan PfC enw da yn genedlaethol dros ddarparu lleoliadau maethu a mabwysiadu i blant ag anghenion dwys.

Mae TACT hefyd yn ceisio dylanwadu ar farn a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar blant mewn gofal. Yn 2007, unwyd ni â Children Law UK (CLUK), sefydliad sy'n gweithio er budd plant sydd ynghlwm wrth y system gyfiawnder. Mae CLUK bellach wedi'i ymgorffori i mewn i adran materion allanol TACT, sy'n ymgyrchu, yn lobïo'r senedd ac yn gweithio yn y cyfryngau ar ran plant mewn gofal.

Elusen i blant yw TACT ac mae popeth yr ydym yn ei wneud er budd plant mewn gofal ac yn ymyl gofal. Buddsoddir ein helw gweithredu yn ôl i mewn i'n darpariaeth gwasanaeth er mwyn sicrhau bod ein gofalwyr a'r plant yn ein gofal yn derbyn y gefnogaeth orau y gallwn ei darparu.

Ein gweledigaeth

Gyda'n gilydd rydym yn creu byd lle mae pob person ifanc yn cael ei fagu gan bobl ofalgar; lle mae cymunedau'n ffynnu oherwydd ein bod yn helpu pobl ifanc i adeiladu bywydau llawn cyfle a dewis.

Ein cenhadaeth

Rydym yn harneisio cryfder teuluoedd, gofalwyr, cymunedau a sefydliadau i gefnogi ac annog plant a phobl ifanc yn ddiamod i gyflawni eu llawn botensial.

Ein gwerthoedd

- **Uchelgeisiol** – drwy helpu eraill i dyfu, rydym ninnau'n tyfu.
- **Angerddol** – rydym yn benderfynol o barhau i wella'r hyn yr ydym yn ei wneud. Byddwn yn ymdrechu'n uchelgeisiol tuag at y canlyniadau gorau i bawb yr ydym yn gweithio gyda hwy.
- **Ymgysylltu** – rydym am wrando'n dda ar y bobl yr ydym yn gweithio gyda hwy, ac ymateb yn gyflym iddynt – plant a phobl ifanc, eu teuluoedd genedigol, gofalwyr, ein staff a'n cefnogwyr.
- **Teg a chyfiawn** – byddwn yn agored ac yn dryloyw, gan gyfathrebu yr hyn yr ydym yn ei wneud a pham yr ydym yn ei wneud, yn seiliedig ar gydraddoldeb a pharch tuag at bawb.
- **Y tu hwnt i elw** – byddwn yn gwneud pob penderfyniad yn seiliedig ar yr hyn sydd orau i blant a phobl ifanc. Byddwn yn cyflwyno gwasanaethau ardderchog mewn ffordd mor effeithlon â phosib er mwyn buddsoddi'n barhaus yn y bobl yr ydym yn gweithio gyda hwy.

Datganiad o Fwriad

Mae TACT Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal ei fusnes yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn nodi sut bydd TACT Cymru yn mabwysiadu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.

Ni fydd y Cynllun hwn yn cael ei ddiwygio heb ymgynghori a chytuno ymlaen llaw â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

1 Cyflwyniad

Gobeithiwn fod ein Cynllun Iaith Gymraeg yn unol ag ysbryd y strategaeth a rheoleiddio cenedlaethol ehangach.

1.1. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. O dan adran 5 y Ddeddf mae'n ofynnol ar bob corff cyhoeddus sy'n derbyn cyfarwyddeb statudol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg baratoi Cynllun Iaith Gymraeg i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae hyn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad i wasanaethau yn eu hiaith eu hunain fel mater o drefn.

1.2. Nid yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod dyletswydd gyfreithiol uniongyrchol ar fudiadau gwirfoddol i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb ar y cyrff cyhoeddus hynny sy'n paratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg i sicrhau bod unrhyw fudiad sy'n llunio cytundeb â hwy i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar eu rhan yn cyflwyno'r gwasanaethau hynny yn unol â'u Cynllun Iaith Gymraeg. Mae hyn yn creu goblygiadau uniongyrchol i TACT Cymru pryd bynnag y mae'n creu contractau gydag Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill.

1.3. Gwnaed y penderfyniad i ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg fel arwydd i ymrwymiad ymroddedig TACT i'r egwyddor o gydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg i'r graddau y mae hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Dywed Adolygiad Blynyddol TACT Cymru 2008-09 "rydym am wrando'n dda ar y bobl yr ydym yn gweithio gyda hwy, ac ymateb yn gyflym iddynt - plant a phobl ifanc, eu teuluoedd genedigol, gofalwyr, ein staff a'n cefnogwyr." Mae TACT Cymru yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith, ac mae eu galluogi yn fater o arfer da yn hytrach na chonsesiwn ac y gallai gwrthod yr hawl hynny eu gosod hwy (fel plant a phobl ifanc / gofalwyr maeth) o dan anfantais wirioneddol.

Felly bydd ein Cynllun wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Mae Cymru'n wlad ddwyieithog
- Mae iaith yn rhan hanfodol o hunaniaeth person
- Gall unigolyn fynegi ei hun yn fwy effeithiol yn ei ddewis iaith
- Mae gwasanaethau a gweithgareddau dwyieithog yn arwydd o arfer da a hyrwyddo cydraddoldeb
- Bydd gwasanaethau a gweithgareddau dwyieithog yn codi proffil TACT Cymru ac yn annog perchnogaeth gan siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg fel ei gilydd yn ogystal â chryfhau apêl codi arian y mudiad.

1.4. Yn ôl Cyfrifiad 2001 mae 20.8% o boblogaeth Cymru yn medru'r Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y canran uchaf o siaradwyr Cymraeg ymysg plant, e.e. 40.8% mewn plant 5–15 oed ar draws Cymru ac mor uchel â 91.4% yng Ngwynedd. At hynny,

mae mwy a mwy o blant yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.5 Yn ogystal, mae TACT Cymru yn ymwybodol o gyd-destun cenedlaethol ehangach y cynllun.

Cyhoeddwyd Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Chwefror 2003. Mae'r cynllun yn cynrychioli'r fframwaith cenedlaethol cyntaf erioed ar gyfer gweithredu a gynlluniwyd ar lefel lywodraethol ar gyfer diogelu, cynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Ymestyn Hawliau (2000) "Dylai gwasanaethau i bobl ifanc yng Nghymru gael eu strwythuro o gwmpas hawl yr holl bobl ifanc i ystod o wasanaethau yn yr iaith o'u dewis, wedi'u dylunio i hyrwyddo eu cyrhaeddiad a'u datblygiad fel unigolion."

Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn: Erthygl 30 "Yn y Gwladwriaethau hynny lle mae lleiafrifoedd ethnig, crefyddol neu ieithyddol neu bersonau o darddiad brodorol yn bodoli, ni ddylid gwrthod yr hawl i blentyn sy'n perthyn i leiafrif o'r fath neu sy'n frodorol mewn cymuned gydag aelodau eraill ei grŵp, i fwynhau ei ddiwylliant, neu ei diwylliant, i ddatgan ac arfer ei grefydd neu ei chrefydd, neu i ddefnyddio ei iaith neu ei hiaith."

Dywed Deddf Plant 1989 pan fydd awdurdod lleol yn gyfrifol am ofal plentyn rhaid iddo roi ystyriaeth ddyledus i gefndir crefyddol, hiliol, diwylliannol ac ieithyddol y plentyn a darparu gwasanaethau priodol sy'n sensitif i'r ffactorau hyn.

R**heoliadau Maethu (Cymru) 2003 a Safonau Gofynnol Cenedlaetho**l sydd gyda'i gilydd yn ffurfio sylfaen y Fframwaith Rheoleiddio o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ar gyfer cynnal Gwasanaethau Maethu.

Safon 7 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Gwerthfawrogi Amrywiaeth

- 7.1 Mae'r Gwasanaeth Maethu yn sicrhau bod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn derbyn Gwasanaethau Gofal Maeth sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn darparu cydraddoldeb.
- 7.2 Mae gan bob plentyn a'i deulu/ theulu fynediad i wasanaethau gofal maeth sy'n cydnabod ac yn mynd i'r afael â'i ryw/rhyw, crefydd, ethnigrwydd, tarddiad, iaith, diwylliant, anabledd a rhywioldeb.

2 Cynllunio Gwasanaeth a Chyflwyno

2.1 2.1 Mae TACT Cymru yn ymrwymedig i gyflawni cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth. Cynhelir a hyrwyddir yr egwyddorion hyn ym mhob maes gwaith TACT yn cynnwys cyflogaeth, recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth, rheoli a chyflwyno gwasanaeth. Mae hyn yn golygu gweithredu mewn ffordd nad yw'n wahaniaethol ar draws pobl lefel a swyddogaeth y mudiad.

2.2 Mae TACT yn ymrwymedig i bwrpas gosod plant mewn cartrefi maeth sy'n adlewyrchu eu hiaith, diwylliant, crefydd ac ethnigrwydd.

2.3 Bydd TACT Cymru yn sicrhau bod ansawdd a safon yr wybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n ysgrifenedig ac yn weledol yn Gymraeg ac yn Saesneg yn gydradd ac o safon uchel.

3 Polisïau, Mentrau a Phrosiectau

3.1 Bydd holl brosiectau newydd a phresennol TACT Cymru yn cael eu cynllunio a'u cynnal yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg wedi i'r Cynllun gael ei gymeradwyo.

3.2 Bydd yr holl staff sy'n gweithio ar ddatblygu cynlluniau a mentrau yn ymwybodol o'r gofynion, a darperir cyngor ac arweiniad priodol.

3.3 Tan i TACT Cymru gyrraedd sefyllfa lle mae ganddo ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg i gyflwyno gwasanaeth cwbl ddwyieithog, byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau dynol presennol.

3.4 Bydd yr holl staff, gofalwyr maeth a phartneriaid maeth sy'n ymwneud â chyflwyno'r gwasanaeth yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg a byddant yn derbyn canllawiau ysgrifenedig fel y bo'n briodol.

3.5 Bydd TACT Cymru yn sicrhau y bydd o fewn ei Gynllunio Busnes Blynyddol a Gwasanaethau yn archwilio ei drefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg, gan sicrhau bod y gwasanaeth a gyflwynir yn cwrdd ag anghenion ieithyddol y defnyddwyr gwasanaeth.

4 Cyfathrebu

Yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau o gwmpas Gwasanaeth Cwsmeriaid, mae croeso i Ddefnyddwyr Gwasanaeth, Partneriaid Gwasanaeth, Cwsmeriaid ac aelodau'r cyhoedd gysylltu â TACT drwy fodd ysgrifenedig, llafar neu electronig yn Gymraeg neu'n Saesneg a bydd yr amser ymateb i ohebiaeth yr un peth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd hyn yn cael ei hysbysebu drwy newyddlenni, adroddiadau blynyddol, ac unrhyw fodd priodol arall.

4.1 Cyfathrebu Ysgrifenedig

Bydd llythyrau a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ateb wedi'i lofnodi yn Gymraeg o fewn yr un amserlen â llythyr Saesneg, sef pum diwrnod. Defnyddir gwasanaeth cyfieithu os bydd angen. Bydd e-byst a dderbynnir yn Gymraeg hefyd yn derbyn ateb yn Gymraeg o fewn yr un amserlen ag ebost a dderbynnir yn Saesneg.

4.2 Cyfathrebu dros y Ffôn

Bydd pob galwad sy'n dod i mewn yn derbyn cyfarchiad dwyieithog er mwyn cyfathrebu i'r galwr bod dewis o iaith yn cael ei gynnig. Bydd staff TACT Cymru yn ymateb i bob galwad ffôn allanol gyda'r cyfarchiad dwyieithog,

"Bore da. Good morning,
TACT Cymru"

neu

"Prynhawn da. Good afternoon,
TACT Cymru"

Os bydd aelod o staff nad yw'n gallu siarad neu ddeall Cymraeg yn derbyn galwad ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd yr aelod o staff yn egluro'n gwrtais nad yw ef neu hi yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg a bydd yn trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg. Os na fydd aelod dwyieithog o staff ar gael i dderbyn yr alwad, bydd yr aelod o staff yn cynnig nodi manylion y galwr ac yn trefnu i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg ddychwelyd yr alwad cyn gynted ag y bo'n bosib, neu'n cynnig bod y galwr yn cyflwyno ymholiad ysgrifenedig yn Gymraeg neu'n parhau â'r sgwrs yn Saesneg.

Bydd holl staff rheng flaen TACT yn derbyn hyfforddiant yn y defnydd o gyfarchion dwyieithog ac ymatebion i'r rheiny sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg.

Bydd TACT Cymru yn anelu at ddarparu cyfarchiad dwyieithog ar y recordiad ar y ffôn ateb.

4.3 Datganiadau i'r wasg

Bydd TACT Cymru yn ymdrechu i gyhoeddi dogfennau i'r wasg a dogfennau cyhoeddusrwydd yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys hysbysebion yn y wasg, posteri, ymgyrchoedd, arddangosfeydd a stondinau gwybodaeth gyhoeddus.

4.4 Cyfarfodydd Cyhoeddus

Bydd hysbysiadau am Gyfarfodydd Cyhoeddus a Chynadleddau Cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog. Anogir y cyhoedd i hysbysu TACT o'u dewis iaith. Bydd y gofyniad ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn cael ei asesu drwy ffurflen gofrestru a'i ddarparu lle y bo angen.

4.5 Cyswllt wyneb yn wyneb

Bydd TACT Cymru yn sicrhau bod dewis iaith darpar ddefnyddiwr gwasanaeth yn cael ei sefydlu adeg y cyswllt cyntaf er mwyn gallu rhoi'r ddarpariaeth ieithyddol fwyaf priodol yn ei lle. Byddwn yn parhau'n sensitif i'r posibilrwydd efallai na fydd dewis iaith unigolyn yr un peth ar gyfer darpariaeth gwasanaeth ysgrifenedig a llafar. Byddwn yn hyblyg ac yn addasu i'r gofynion hyn.

Bydd dewis iaith defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gofnodi er mwyn i ddarpariaeth gwasanaeth priodol gael ei wneud adeg pob cysylltiad yn y dyfodol ar draws TACT.

Lle nad yw'n bosib darparu staff sy'n siarad Cymraeg ac y teimlir ei fod yn fwy priodol, bydd TACT yn ceisio gwasanaethau gwasanaeth cyfieithu proffesiynol.

5 Delwedd Gyhoeddus

5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

TACT Cymru yw enw'r sefydliad yng Nghymru. Bydd yr enw yn ymddangos ar yr holl bapur pennawd, papur ffacs, arwyddion, mewnol ac allanol, cardiau busnes, ffurflenni, posteri a thaflenni.

Bydd cyfeiriad TACT Cymru ac unrhyw wybodaeth safonol arall yn ymddangos yn ddwyieithog ar yr holl ddeunydd corfforaethol, fel y rhestrwyd uchod, a ddefnyddir yng Nghymru.

Bydd yr holl arwyddion mewn swyddfeydd yng Nghymru yn ddwyieithog ac yn cynnwys logo TACT.

5.2 Cyhoeddiadau

Bydd TACT Cymru yn ymdrechu i gynhyrchu ei holl ddeunydd allanol yn ddwyieithog i'w ddefnyddio yng Nghymru.

Bydd TACT Cymru yn cynhyrchu deunydd dwyieithog at ddefnydd cyhoeddus yng Nghymru fel gwybodaeth ar gyfer gofalwyr maeth, plant a phobl ifanc, Adroddiadau Blynyddol, deunyddiau Cwynion a Chynrychiolaeth ac ati.

5.3 Gwefan

Bydd TACT yn gweithio tuag at ddarparu tudalennau gwe neu adrannau o'r wefan sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru yn ddwyieithog.

5.4 Gweithio mewn partneriaeth

Pan yn gweithio mewn partneriaeth â mudiadau eraill bydd TACT yn sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'n Cynllun Iaith Gymraeg a Chynlluniau Iaith Gymraeg partïon eraill.

6 Staffio a Recriwtio

6.1 Bydd TACT Cymru yn monitro lefelau sgiliau a lleoliadau ei staff sy'n siarad

Cymraeg drwy archwiliad sgiliau iaith er mwyn sicrhau bod digon o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi i gefnogi cyflwyno a darparu:

Recriwtio, dethol, hyfforddiant gofalwyr maeth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc.

6.2 Bydd TACT Cymru yn gweithio tuag at sicrhau bod yr holl ddogfennaeth recriwtio h.y. hysbysebion, disgrifiadau swyddi, manylebau person yn Gymraeg ac yn Saesneg.

6.3 Bydd TACT Cymru yn gweithio tuag at sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu a'u trefnu i gynnal profion a chyfweliadau dethol yn Gymraeg fel y bo'n briodol.

6.4 Mae TACT Cymru yn cefnogi, a bydd yn parhau i gefnogi unrhyw geisiadau cyfrifol gan aelodau staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg yn unol â'u rôl a'u cyfrifoldeb o fewn y sefydliad.

6.5 Bydd Rheolwyr Llinell yn sicrhau bod ganddynt y cyfle i ddysgu Cymraeg fel rhan o gynlluniau datblygiad personol unigolion yn ystod eu harfarniadau blynyddol.

6.6 Rhoddir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff fel rhan o'u cyflwyno a thrwy hyfforddiant parhaus. Gellid darparu'r hyfforddiant gan Estyn Llaw neu drwy ddefnyddio'r DVD a'r pecyn sydd ar gael gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

7 Cyflwyno'r Cynllun

7.1 Mae'r ymrwymiad i'r cynllun iaith Gymraeg wedi'i gymeradwyo gan Uwch Dîm Reoli TACT ac mae wedi derbyn awdurdod y mudiad.

7.2 Mae TACT yn ei ymrwymiad wedi darparu cyllideb gynyddrannol dreigl er mwyn cyflwyno'r cynllun.

7.3 Bydd holl staff TACT yn ymwybodol o'r cynllun, yn benodol y staff hynny yn TACT Cymru fydd nid yn unig yn ymwybodol o'r cynllun ond o'u cyfrifoldebau drwy ganllawiau ysgrifenedig a thrwy eu rheolwyr llinell. Bydd yr ymrwymiad a'r mesurau a bennir yn ffurfio rhan o'r broses gyflwyno i'r holl staff newydd.

7.4 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant Cymru sy'n gyfrifol am gydlynu a datblygu'r cynllun.

7.5 Bydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant Cymru yn sicrhau asesu parhaus anghenion deddfwriaethol Iaith Gymraeg TACT Cymru drwy broses Cynllunio Busnes Blynyddol TACT.

8 Monitro'r Cynllun

8.1 Bydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant Cymru yn darparu adroddiadau monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Caiff cwynion eu cofnodi ac ymatebir iddynt mewn ffordd briodol. Dylid anfon unrhyw gwynion ynghylch cyflwyno'r cynllun neu ansawdd y gwasanaeth at y **Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant: Dot Jones, 20 Gerddi Fictoria, Castell-nedd, SA11 3BH.**

8.2 Bydd TACT yn adolygu cynnydd y cynllun a'r cynllun gweithredu ar ôl tair blynedd mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Lle y cytunir ar ddiwygiadau cânt eu hadlewyrchu wrth ddiwygio Cynllun Iaith TACT.

9 Hysbysebu'r Cynllun

9.1 Bydd TACT Cymru yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun, gwasanaethau a gweithgareddau Iaith Gymraeg y mudiad a'r weithdrefn gwynion yn barhaus i'r cyhoedd, staff, gofalwyr maeth, plant a phobl ifanc, partneriaid proffesiynol ac i bawb sy'n ymwneud â TACT Cymru.

9.2 Gellir defnyddio'r dulliau cyhoeddusrwydd canlynol:

Hysbysiadau mewn swyddfeydd

Hysbysiadau i holl gwsmeriaid TACT Cymru, awdurdodau lleol, a mudiadau eraill

Datganiadau i'r wasg

Posteri

Newyddlenni - TACT a TACT Cymru

Gwefan TACT

Cylchredeg canllawiau i'r holl staff

Amserlen Gyflwyno

Gweithred		Person sy'n Gyfrifol	Dyddiad targed
2.0 Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth			
2.1	Cyflawni cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, Cymru	Cyfredol a pharhaus
2.2	Gosod plant mewn cartrefi maeth sy'n adlewyrchu eu hiaith, diwylliant, crefydd ac ethnigrwydd	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant	Cyfredol a pharhaus
2.3	Ansawdd a safon yr wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant	Cyfredol a pharhaus
3.0 Polisïau, mentrau a phrosiectau			
3.1	Prosiectau newydd a chyfredol i'w cynllunio a'u cynnal yn unol â'r CIG.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant	O fis Medi 2009
3.2	Staff sy'n gweithio ar ddatblygu cynlluniau a mentrau yn ymwybodol o'r gofynion a rhoddir cyngor ac arweiniad iddynt.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant	O fis Medi 2009
3.3	Gwneud y defnydd gorau o adnoddau dynol presennol.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant	Cyfredol a pharhaus
3.4	Staff, gofalwyr maeth a phartneriaid proffesiynol yn ymwybodol o'r gofynion a rhoddir canllawiau iddynt.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant	O fis Medi 2009 ymlaen
3.5	Sicrhau bod y gwasanaeth a gyflwynir yn cwrdd ag anghenion ieithyddol defnyd dwyr gwasanaeth.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant	O fis Medi 2009 ymlaen
4.0 Cyfathrebu			
4.1	Cyfathrebu ysgrifenedig	Holl Reolwyr TACT Cymru	O fis Medi 2009 ymlaen
4.2	Cyfathrebu dros y ffôn	Staff TACT Cymru	Cyfredol a pharhaus
4.3	Datganiadau i'r wasg	Holl Reolwyr TACT Cymru	O fis Medi 2009 ymlaen
4.4	Cyfarfodydd cyhoeddus	Holl Reolwyr TACT Cymru	O fis Medi 2009 ymlaen
4.5	Cyswllt wyneb yn wyneb	Holl Staff TACT	O fis Medi 2009 ymlaen

Reference	Action	Person responsible	Target date
5.0 Delwedd Gyhoeddus			
5.1.	Hunaniaeth Gorfforaethol	Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Allanol gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant	Cyfredol a pharhaus
5.2	Cyhoeddiadau	Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Allanol gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant	Cyfredol a pharhaus
5.3	Gwefan	Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Allanol gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant	2009 - Ebrill 2010
6.0 Staffio a Recriwtio			
6.1	Archwiliad sgiliau iaith Gymraeg.	Cyfarwyddwr gwasanaethau plant & Rheolwyr	Medi 2009
6.2	Dogfennaeth recriwtio.	Cyfarwyddwr gwasanaethau plant a rheolwyr Ardal	Cyfredol a pharhaus
6.3	Profion a chyfweliadau dethol.	Cyfarwyddwr gwasanaethau plant	O fis Medi 2009 ymlaen
6.4	Cefnogaeth i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.	Cyfarwyddwr Brodyr a Chwiorydd plant gyda'r Rheolwr AD	Medi 2009
6.5	Dysgu Cymraeg fel datblygiad personol.	Cyfarwyddwr gwasanaethau plant a Rheolwyr Llinell	Cyfredol a pharhaus
6.6	Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.	All line managers	October 2009
7.0 Cyflwyno			
7.1	Ymrwymiad	Uwch Dîm Reoli	Awst 2009
7.2	Cyllideb gynyddrannol dreigl	Cyfarwyddwr gweithredol cyllid	Cyfredol a pharhaus
7.3	Ymwybyddiaeth o'r cynllun	Yr Holl Reolwyr	Medi 2009
7.4	Cydlynu a datblygu'r cynllun	Cyfarwyddwr gwasanaethau plant	Cyfredol a pharhaus
7.5	Asesu anghenion deddfwriaethol iaith Gymraeg	Cyfarwyddwr gwasanaethau plant	Medi 2009
8.0 Monitro			
8.1	Adroddiadau blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac ymdrin â chwynion.	Cyfarwyddwr gwasanaethau plant	Medi 2009
8.2	Adolygiad	Bwrdd yr Iaith Gymraeg â'r Cyfarwyddwr gwasanaethau plant	Medi 2009
9.0 Hysbysebu'r Cynllun			
9.1 & 9.2	Cyhoeddusrwydd	Cyfarwyddwr gwasanaethau plant	Awst 2009 – Ebrill 2010

Dyfodol mwy disglair i blant a phobl Ifanc

The Adolescent and Children's Trust

TACT Cymru - 01639 622 320 - cymru@tactcare.org.uk

www.tactcare.org.uk

Argraffir y llyfryn hwn ar bapur wedi'i ailgylchu 100%

Rhif elusen gofrestredig: Lloegr a Chymru 1018963. Yr Alban SC 039052

Dylunio: www.sourcecoms.com